

Ffurflen cydsynio i radiotherapi ar gyfer cancer y pen a'r gwddf (safleoedd uwch)

Dim ond os yw'r claf dros 16 oed a bod ganddo'r galluedd i gydsynio y dylid defnyddio'r ffurflen hon. Os nad oes gan y claf y galluedd yn gyfreithiol, defnyddiwch ffurflen gydsynio amgen briodol gan eich ysbyty.

Manylion y claf

Enw'r claf:

Dyddiad geni:

Dynodydd unigryw'r claf:

Enw'r ysbyty:

Oncolegydd ymgynghorol neu radiograffydd ymgynghorol cyfrifol:

Gofynion arbennig: e.e. trafnidiaeth, cyfieithydd ar y pryd, cymorth

Manylion y radiotherapi

Math o radiotherapi:

Radiotherapi paladr allanol

Rhan o'r corff ac ochr:
(Ticiwch fel y bo'n briodol)

- Nasoffaryncs
 Ceudod y trwyn
 Sinysau
 Chwarennau poer
 Clust
 Arall

Radiotherapi i'r gwddf

- Chwith
 De
 Dwyochrol

Nod y driniaeth:
(Ticiwch fel y bo'n briodol)

- Gwellhaol** – i roi'r cyfle gorau i chi wella'n llwyr
 Cynorthwyol – triniaeth a roddir ar ôl llawdriniaeth i leihau'r risg y bydd y cancer yn dychwelyd
 Rheoli clefyd/lliniarol – i wella eich symptomau a/neu'ch helpu i fyw yn hirach ond nid i wella eich cancer

Therapi gwrth-ganser systemig cydredol:
(Ticiwch fel y bo'n briodol)

- Ie gyda
 Na

(Bydd ffurflen gydsynio ar wahân yn cwmpasu sgil-ffeithiau posibl y driniaeth hon)

Efallai y bydd gennych gwestiynau cyn dechrau eich radiotherapi, neu yn ystod neu ar ôl y driniaeth.

Rhoddir manylion cyswllt yma ar gyfer unrhyw ymholiadau pellach, pryderon neu os hoffech drafod eich triniaeth ymhellach.

Sgil-efeithiau cynnar neu dymor byr posibl

Yn dechrau yn ystod radiotherapi neu'n fuan ar ôl cwblhau radiotherapi ac, fel arfer, yn diflannu o fewn dau i chwe mis ar ôl cwblhau radiotherapi. Mae'r amlderau yn rhai bras.

<p>Disgwyliedig 50%–100%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Blinder <input type="checkbox"/> Poen ar y croen, y croen yn cosi, pothelli ar y croen a newid yn lliw'r croen lle rhoddir triniaeth – croen gwyn/goleuach: pinc, coch, yn dywyllach na'r ardal o amgylch; croen brown: goch neu'n dywyllach na'r ardal o amgylch; croen du: yn dywyllach na'r ardal o amgylch, y lliwiau yn newid rhwng melyn/porffor/llwyd <input type="checkbox"/> Llygaid coch neu laith <input type="checkbox"/> Cosi yn leinin y trwyn neu'r trwyn wedi blocio <input type="checkbox"/> Wlserau yn y geg <input type="checkbox"/> Poen yn y geg a/neu'r gwddf a all achosi problemau o ran llyncu <input type="checkbox"/> Colli synnwyr blasu neu newid iddo <input type="checkbox"/> Colli gwallt lle rhoddir triniaeth <input type="checkbox"/> Gorbryder, teimlo'n isel, teimlo'n anniddig neu gysgu'n wael
<p>Cyffredin 10%–50%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Colli synnwyr arogleuo neu newidiadau iddo <input type="checkbox"/> Colli clyw dros dro a/neu boen yn y glust <input type="checkbox"/> Ceg sych <input type="checkbox"/> Heintiau yn y geg gan gynnwys llindag y geg <input type="checkbox"/> Newid i'ch llais <input type="checkbox"/> Secretiadau mwy trwchus a glynol <input type="checkbox"/> Cyfog – teimlo'n sâl <input type="checkbox"/> Diffyg archwaeth am fwyd <input type="checkbox"/> Colli pwysau <input type="checkbox"/> Anhawster wrth lyncu a all olygu bod angen gosod tiwb bwydo dros dro ar ddechrau'r driniaeth neu yn ystod y driniaeth er mwyn sicrhau maeth a hydradiad digonol. <input type="checkbox"/> Risg o gael eich derbyn i'r ysbyty
<p>Llai cyffredin Llai na 10%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Haint ar y frest a all gael ei achosi gan fwyd a/neu secretiadau yn mynd i lawr y bibell wynt <input type="checkbox"/> Dadhydradu am fod llai o hylif yn cael ei gymryd drwy'r geg <input type="checkbox"/> Chwydu <input type="checkbox"/> Arwydd Lhermitte – newidiadau dros dro i fadruddyn y cefn sy'n peri i chi deimlo rhywbeth tebyg i sioc drydanol sydyn wrth blygu'r gwddf. Gallant ddigwydd dri i chwe mis ar ôl y driniaeth
<p>Anghyffredin Llai nag 1%</p>	<ul style="list-style-type: none"> <input type="checkbox"/> Risg i fywyd
<p>Risgiau penodol i chi o ganlyniad i'ch triniaeth</p>	<p>Rwy'n cadarnhau bod y sgil-efeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi.</p>
<p style="text-align: right;">Blaenlythrennau'r claf <input type="text"/></p>	

Sgil-ffeithiau hwyr neu dymor hir posibl

Gallant ddigwydd fisoedd neu flynyddoedd lawer ar ôl triniaeth radiotherapi a gallant fod yn parhaol. Mae'r amlderau yn rhai bras.

<p>Disgwyliedig 50%–100%</p>	<p><input type="checkbox"/> Newid yn lliw'r croen lle rhoddir triniaeth – yn fwy golau neu'n fwy tywyll fel arfer ar gyfer unrhyw liw croen</p> <p><input type="checkbox"/> Lymffoedema – y croen, yr ên a'r meinweoedd meddal yn chwyddo</p>
<p>Cyffredin 10%–50%</p>	<p><input type="checkbox"/> Newidiadau parhaol i ansawdd y croen lle rhoddir triniaeth – croen mwy trwchus neu deneuach</p> <p><input type="checkbox"/> Telangiectasis lle rhoddir triniaeth – pibellau gwaed bach y gellir eu gweld sy'n edrych fel marciau corynnaidd</p> <p><input type="checkbox"/> Colli gwallt lle rhoddir triniaeth neu'r gwallt yn aildyfu'n dameidiog</p> <p><input type="checkbox"/> Trwyn sych parhaus</p> <p><input type="checkbox"/> Crofennu yn y trwyn</p> <p><input type="checkbox"/> Ceg sych</p> <p><input type="checkbox"/> Colli synnwyr blasu neu newid iddo – gyda'r posibilrwydd y bydd yn dychwelyd i ryw raddau dros 18 mis</p> <p><input type="checkbox"/> Isthyroidedd – chwarren thyroid tanweithredol, a all olygu bod angen i chi gymryd meddyginiaeth</p> <p><input type="checkbox"/> Cataract – cymylu yn lens y llygad, y gall fod angen llawdriniaeth i'w gywiro</p>
<p>Llai cyffredin Llai na 10%</p>	<p><input type="checkbox"/> Llygad sych</p> <p><input type="checkbox"/> Newidiadau gweledol a niwed i'r llygad</p> <p><input type="checkbox"/> Ailchwydu/adlifo o'r trwyn</p> <p><input type="checkbox"/> Colli synnwyr arogleuo</p> <p><input type="checkbox"/> Colli cliw neu newidiadau i'r clyw</p> <p><input type="checkbox"/> Problemau deintyddol</p> <p><input type="checkbox"/> Trismws – anystwythder yn yr ên</p> <p><input type="checkbox"/> Newid i'ch llais</p> <p><input type="checkbox"/> Problemau llyncu – gyda'r risg y bydd angen tiwb bwydo tymor hir/parhaol arnoch</p> <p><input type="checkbox"/> Mwy o risg o strôc</p> <p><input type="checkbox"/> Camweithrediad y chwarren bitwidol – ni fydd eich chwarren bitwidol yn cynhyrchu digon o hormonau, a allai olygu bod angen i chi gymryd meddyginiaeth yn lle'r hormonau</p> <p><input type="checkbox"/> Osteoradionecrosis yr ên – niwed i asgwrn yr ên</p>
<p>Anghyffredin Llai nag 1%</p>	<p><input type="checkbox"/> Newidiadau parhaol i goesyn yr ymennydd, madruddyn y cefn a'r nerfau yn yr wyneb, y fraich neu'r llaw</p> <p><input type="checkbox"/> Radionecrosis yr ymennydd – niwed i ran fach o'r ymennydd na ellir ei atgyweirio</p> <p><input type="checkbox"/> Canser gwahanol lle rhoddir triniaeth</p> <p><input type="checkbox"/> Risg i fywyd</p>
<p>Risgiau penodol i chi o ganlyniad i'ch triniaeth</p>	
<p>Rwy'n cadarnhau bod y sgil-ffeithiau uchod wedi cael eu hesbonio i mi.</p>	
<p>Blaenlythrennau'r claf</p>	

Enw'r claf:

Dynodydd unigryw'r claf:

Datganiad y gweithiwr iechyd proffesiynol

(i'w lenwi gan weithiwr iechyd proffesiynol sydd â gwybodaeth briodol am y driniaeth arfaethedig)

- Rwyf wedi trafod yr hyn y mae'r driniaeth yn debygol o'i gynnwys, amcanion bwriadedig y driniaeth hon a'i sgil-ffeithiau.
- Rwyf hefyd wedi trafod manteision a risgiau unrhyw driniaethau amgen sydd ar gael gan gynnwys dim triniaeth.
- Rwyf wedi trafod unrhyw bryderon penodol sydd gan y claf hwn.

Rhodddwyd taflen wybodaeth i gleifion: Do / Naddo – Manylion:

Rhodddwyd copi o'r ffurflen gydsynio i'r claf: Do / Naddo

Llofnod:

Dyddiad:

Enw:

Teitl swydd

Datganiad y claf

- Mae nodau a sgil-ffeithiau posibl y driniaeth wedi'u hesbonio i mi ac rwyf wedi cael cyfle i drafod triniaeth amgen ac rwy'n cytuno i gael y driniaeth a ddisgrifir ar y ffurflen hon.
- Rwy'n deall na ellir gwarantu y bydd unigolyn penodol yn rhoi'r radiotherapi. Fodd bynnag, bydd yr unigolyn yn meddu ar arbenigedd priodol.
- Soniwyd wrthyf am driniaethau ychwanegol sy'n angenrheidiol cyn fy nhriniaeth neu a all fod yn angenrheidiol yn ystod fy nhriniaeth. Gall hyn gynnwys marciau parhaol ar y croen a ffotograffau i helpu i gynllunio a nodi triniaethau.
- Rwy'n cytuno y gall gwybodaeth a gesglir yn ystod fy nhriniaeth, gan gynnwys delweddau a'm cofnodion iechyd, gael eu defnyddio ar gyfer addysg, gwaith archwilio ac ymchwil. Bydd unrhyw wybodaeth a ddefnyddir yn ddiennw. Rwy'n ymwybodol y gallaf dynnu fy nghydsyniad yn ôl unrhyw bryd.

Ticiwch os yn berthnasol

- Rwy'n cadarnhau nad oes risg y gallwn fod yn feichiog.
- Rwy'n deall na ddylwn feichiogi yn ystod y driniaeth.

Noder: os oes unrhyw bosibilrwydd eich bod yn feichiog, rhaid i chi ddweud wrth eich meddyg ysbty/gweithiwr iechyd proffesiynol cyn cael triniaeth gan y gall hyn arwain at niwed sylweddol i ffetws yn y groth. Nid yw testosteron a thriniaethau hormon eraill yn ddulliau atal cenhedlu.

- Rwy'n deall petawn yn parhau i smygu, y gallai gael effaith sylweddol ar y sgil-ffeithiau y byddaf yn eu profi ac effeithiolrwydd fy nhriniaeth.

- Nid oes gennyf reolydd calon na diffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy (ICD).

neu

- Mae gennyf reolydd calon a/neu ddiffibriliwr cardiaidd mewnblanadwy (ICD) ac mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â hyn wedi'u hesbonio i mi.

Llofnod:

Enw'r claf:

Dyddiad:

Datganiad:

- cyfieithydd ar y pryd
- tyst (lle y bo'n briodol)

- Rwyf wedi dehongli'r wybodaeth yn y ffurflen hon i'r claf hyd eithaf fy ngallu ac mewn ffordd sydd, yn fy marn i, yn ddealladwy iddo.

neu

- Rwy'n cadarnhau na all y claf lofnodi ond ei fod wedi cydsynio i gael y driniaeth.

Llofnod:

Enw:

Dyddiad:

Cadarnhad o gydsyniad y claf

(I'w lofnodi cyn i'r radiotherapi ddechrau)

Rwy'n cadarnhau nad oes gennyf unrhyw gwestiynau pellach ac fy mod am gael y driniaeth.

Blaenlythrennau'r claf

Dyddiad: